# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 7 Tachwedd

2023

Amser: 09.01 - 09.06

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Heledd Fychan<br>Lesley Griffiths AS<br>Darren Millar AS |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Yan Thomas (Dirprwy Glerc) |
| Eraill yn bresennol | Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd<br>Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Llywydd yr Aelodau i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan Jane Dodds a David Rees

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i'w cyhoeddi

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Rheolwyr Busnes at y newidiadau a ganlyn:

- ~~Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd: Diwygio Bysiau (30 munud)~~ *I'w gyhoeddi fel Datganiad Ysgrifenedig*
- ~~Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant: Diweddariad ar y Cynllun Gweithredu Dementia (30 munud)~~ – *Gohiriwyd*
- Datganiad gan Weinidog yr Economi – Parthau Buddsoddi (30 munud)
- ~~Datganiad gan Weinidog yr Economi: Cydnabod y cyfraniad y mae digwyddiadau yn ei wneud i Gymru (30 munud)~~ – *Gohiriwyd*
- Datganiad gan Weinidog yr Economi – Tata Steel (30 munud)
- Cynnig i atal Rheolau Sefydlog dros dro (5 munud)
- Dadl: Cofio (60 munud)

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal fel yr eitem olaf o fusnes.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 6.05pm.

Gofynnodd Heledd Fychan pryd y bydd y datganiadau llafar gohiriedig ar y 'Cynllun Gweithredu Dementia' a'r 'cyfraniad y mae digwyddiadau yn ei wneud i Gymru' yn digwydd. Cadarnhaodd y Trefnydd y byddan nhw'n cael eu haildrefnu yn y flwyddyn newydd.

**Dydd Mercher**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.10pm.

### 3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Rhoddodd y Trefnydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am y newidiadau canlynol i amserlen Busnes y Llywodraeth am y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mawrth 14 Tachwedd 2023**

- ~~Datganiad gan Weinidog yr Economi: Economi Cymoedd y Gogledd (30 munud)~~ – *gohiriwyd*
- Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol: Hawliau Plant (30 munud) *Symudwyd ymlaen o 21 Tachwedd*
- Dadl: Cyfnod 4 Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) (15 munud)

**Dydd Mawrth 21 Tachwedd 2023**

- ~~Datganiad gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Diogelwch Adeiladau (30 munud)~~ – *gohiriwyd tan 28 Tachwedd*
- Datganiad gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg: Diwygio'r Flwyddyn Ysgol (30 munud)
- ~~Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol: Hawliau Plant (30 munud)~~ – *symudwyd ymlaen i 14 Tachwedd*
- Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 a Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2015 (Diwygio) 2023 (10 munud)

### 3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunwyd ar yr ychwanegiadau canlynol i amserlen Busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mercher 22 Tachwedd 2023 -**

- ~~Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) – Mark Isherwood (60 munud)~~
  *Gohiriwyd tan 6 Rhagfyr*
- Dadl ar Ddeiseb P-06-1356: Cyflwyno mesurau diogelwch cynhwysfawr ar gyffordd 'Mynegbost' yr A477 (30 munud)

**Dydd Mercher 29 Tachwedd 2023 -**

- Datganiad gan Sam Rowlands: Cyflwyno Bil Arfaethedig Aelod - Y Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru) (60 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon: Archwilio hen berthynas mewn oes newydd (60 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith - Gweithrediad y mesurau interim diogelu'r amgylchedd 2022-23 (30 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Dadl Fer: James Evans (Brycheiniog a Sir Faesyfed) (30 munud)

## 4 Unrhyw Fater Arall

**Araith y Brenin**

Dywedodd y Trefnydd wrth y Pwyllgor Busnes fod y Llywodraeth yn anelu at gyhoeddi Datganiad Ysgrifenedig yn cynnwys dadansoddiad cynnar o'r eitemau y disgwylir iddynt fod o ddiddordeb i'r Senedd cyn gynted â phosibl yn dilyn Araith y Brenin heddiw.

**Cyhoeddi Cwestiynau Brys ac Amserol**

Dywedodd y Llywydd wrth y Rheolwyr Busnes fod y gwaith datblygu angenrheidiol bellach wedi'i gwblhau ac y bydd yr holl Gwestiynau Brys ac Amserol, o'r wythnos hon ymlaen, yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cofnod erbyn diwedd yr wythnos y cawsant eu hystyried.

Gofynnodd y Llywydd i'r Rheolwyr Busnes atgoffa eu grwpiau bod y canllawiau diweddaraf ar y Modd Priodol o gynnal Busnes y Senedd, gan gynnwys mewn perthynas â Chwestiynau Amserol, wedi'u cyhoeddi a'u dosbarthu i'r Aelodau ar 20 Hydref.